



## Yr Uned Wenyn Genedlaethol

### Nythfeydd Gwenyn Mêl a Gwenyn Meirch

Ionawr 2022

**Gall gwenyn meirch fod yn broblem fawr i nythfeydd gwenyn mêl ar ddiwedd yr haf ac yn yr hydref. Rhaid cofio y gall defnyddio gwenwyn fel mesur rheoli ladd gwenyn hefyd, yn ogystal â bod yn niweidiol i'r gwenynwr!**

#### Sawl rhywogaeth o wenyn meirch sydd?

Ceir llawer o rywogaethau o wenyn meirch, ond mae'r rhan fwyaf ohonynt yn unig eu natur ac, fel arfer, nid ydynt yn fygythiad i wenyn mêl. Yn y DU, mae saith rhywogaeth sy'n gymdeithasol ac yn achosi problemau i wenyn a gwenynwyr, sef gwenynen feirch gyffredin (*Vespula vulgaris*), cacynen Ewrop (*Vespa crabro*), gwenynen feirch goch (*Vespula rufa*), gwenynen feirch y coed (*Dolichovespula sylvestris*), gwenynen feirch yr Almaen (*Vespula germanica*), gwenynen feirch Norwy (*Dolichovespula norwegica*) a gwenynen feirch ganolwedd (*Dolichovespula media*). Mae'r rhain i gyd yn dra chymdeithasol, yn byw mewn nyth â brenhines yn ben arno gyda gweithwyr (benywod heb ddatblygu) sy'n bwydo'r epiloedd eraill, gan gynnwys gwenyn gormes (gwrywod) a breninesau gwryf, ac yn gofalu amdanynt ar ddiwedd yr haf. Hefyd, ceir *Vespula austriaca*, sef rhywogaeth gwcw sydd â gwrywod a benywod yn unig.

#### Pa rywogaeth yw'r bygythiad mwyaf i wenyn mêl?

Mae'r adroddiadau mwyaf cywir am wenyn meirch yn ymosod ar nythfeydd gwenyn mêl yn y DU yn nodi mai gwenyn meirch cyffredin, sef *V. vulgaris*, neu wenyn meirch yr Almaen, sef *V. germanica* yw'r rhain. Fodd bynnag, mae'r rhywogaethau eraill yn llai cyffredin neu wedi'u dosbarthu'n lleol ar y cyfan.

#### Ble y byddant yn nythu?

Bydd gwenyn meirch cyffredin, gwenyn meirch yr Almaen a gwenyn meirch coch yn nythu dan ddaear, mae'n well gan gacwn Ewrop nythu mewn boncyffion gwag a bydd gwenyn meirch Norwy yn nythu mewn coed a llwyni, gan hongian nythod o ganghennau.

## Beth yw eu cylch oes?

Bydd breninesau sydd wedi paru yn gaeafgysgu mewn llecynnau cysgodol, gan ymddangos yn y gwanwyn i chwilio am safle nythu. Ar ôl dod o hyd i safle addas, bydd wedyn yn dechrau sefydlu'r nyth. Nid oes gan wenyne meirch chwarennau cŵyr, felly byddant yn gwneud eu nythod allan o bapur a gellir eu gweld yn aml yn crafu pren oddi ar goed a phaneli neu byst ffensys gardd. Wedyn byddant yn cymysgu'r llinynnau pren â phoer yn eu cegau, gan greu mwydion papur a ddefnyddir i greu nyth ar ffurf cromen siâp ymbarél i ddechrau, gyda chelloedd sy'n wynebu am i lawr.

Bydd y frenhines yn dodwy wyau yn y celloedd, a fydd yn deor ar ffurf larfâu ac yna'n porthi ar gig megis llau'r coed a phlâu planhigion eraill. Pan gânt eu bwydo, bydd y larfâu'n cynhyrchu secretiad siwgrog fel gwobr i'r porthwr sy'n cynnwys carbohydradau. Pan fyddant wedi datblygu, bydd y larfâu'n chwileru ac wedyn yn ymddangos fel gwenyn meirch llawndwf. Caiff y nyth ei ehangu gan wenyne meirch gweithgar a chaiff gwenyn meirch gormes (gwrywod) a breninesau gwryf eu magu tua diwedd yr haf. Tua dechrau'r gwanwyn, bydd y breninesau gwryf yn gadael y nyth i baru a gaeafgysgu. Bydd yr hen frenhines yn marw, gan adael y gwenyn meirch gweithgar heb frenhines. Am nad oes brenhines, ni fydd larfâu'n cael eu magu i fwydo gwobrau siwgrog ac felly bydd y gwenyn meirch yn mynd allan i chwilio am bethau melys eraill megis diodydd pop, brechdanau jam, cychod gwenyn ac ati. Er eu bod yn niwsans, maent yn cyflawni rôl bwysig ym myd natur.

## A yw gwenyn meirch yn bwyta gwenyn mêl?

Drwy gydol y gwanwyn a'r haf, bydd gwenyn meirch weithiau'n ysglyfaethu ar nythfeydd gwannach, gan chwilio am wenyne marw i'w defnyddio fel bwyd. O bryd i'w gilydd, byddant yn cymryd gwenyn byw yn y maes, ond ni fydd y niferoedd a gymerir yn cael fawr ddim effaith ar nythfeydd. Yn yr hydref, byddant dwyn mêl o gychod gwenyn, a bydd llawer o wenyne yn marw yn ceisio amddiffyn y cwch.

## Beth y gallaf ei wneud i atal gwenyn meirch rhag dwyn mêl fy nythfeydd gwenyn?

Gall nythfeydd cryf ac iach amddiffyn eu hunain yn well. Mae nythfeydd gwan a'r rhai hynny sydd â Varroa yn fwy agored i niwed. Gellir rhoi tri mesur ar waith i gynorthwyo nythfeydd gwenyn mêl:

**Rheoli plâu gwenyn meirch yn yr amgylchedd.** Yn amlwg, mae dinistrio nythod yn y gwanwyn a'r haf yn ddull da o leihau poblogaeth gyffredinol gwenyn meirch a lleihau problemau dwyn yn yr hydref; felly, bydd sicrhau nad oes nythod gwenyn meirch yn agos at eich gwenynfa yn helpu. Fodd bynnag, byddai dinistrio nythfeydd gwenyn meirch ar raddfa eang yn anfanteisiol i'r amgylchedd.

**Trapio gwenyn meirch yn y wenynefa.** Bydd gosod trapiau gwenyn meirch megis jariau/poteli sy'n cynnwys cymysgedd o ddŵr a jam yn helpu. Bydd gwenyn meirch yn tueddu i fynd at y trapiau hyn fel opsiwn haws, ac yna'n boddi pan na allant ddianc. Mae

trapiau masnachol, a all fod yn fwy effeithiol ac yn haws eu defnyddio, ar gael gan rai cyflenwyr cyfarpar gwenyna a chyflenwyr masnachol eraill.

**Cynorthwyo'r nythfa wenyn.** Dylid lleihau maint mynedfa'r cwch gwenyn er mwyn ei gwneud hi'n haws i'r gwenyn amddiffyn y nythfa. Yn achos problemau difrifol, dylid torri'r fynedfa i lawr i faint un wenynen. Gall fod yn haws i wenyn amddiffyn mynedfa sydd ar ffurf tiwb bach. Bydd cau lloriau rhwyllau agored gan ddefnyddio'r mewnosodiad llawr yn helpu hefyd. Mae lloriau cychod gwenyn sydd ar gael yn fasnachol wedi cael eu datblygu i gynnwys trapiau er mwyn helpu i atal cacwn Asia rhag ysglyfaethu ar nythfeydd. Mae'r rhain hefyd yn helpu i atal gwenyn meirch rhag ysglyfaethu, a gellir eu prynu gan y rhan fwyaf o gyflenwyr cyfarpar gwenyna.

### **National Bee Unit**

APHA, Room 11G03, York Biotech Campus,

Sand Hutton, York YO41 1LZ

Ffôn: 03003030094 E-bost: [nbu@apha.gov.uk](mailto:nbu@apha.gov.uk)

Gwefan: [www.nationalbeeunit.com](http://www.nationalbeeunit.com)

Ionawr 2022

(h) Hawlfraint y Goron 2022

Gallwch aildefnyddio'r wybodaeth hon (ac eithrio'r logos) am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau fersiwn 3 y Drwydded Llywodraeth Agored. Er mwyn gweld y drwydded hon ewch i [www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3/](http://www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3/) neu e-bostiwch [PSI@nationalarchives.gsi.gov.uk](mailto:PSI@nationalarchives.gsi.gov.uk)